hefyd Samuel Roberts. Roedd gan Llanbrynmair a Llansannan eu problemau. Profodd William Rees yn ei blentyndod dlodi affwysol o'r cynaeafau gwael, a gweinidogaethodd yn gydwybodol gan roddi sylw mawr i'r werin bobl, asgwrn cefn y capeli ymneilltuol. Fe'i hordeiniwyd i gyflawn waith y Weinidogath ymysg yr Annibynwyr ym 1832, blwyddyn dyngedfennol yn hanes democratiaeth ym Mhrydain, pan ddechreuwyd diwygio y sustem o bleidleisio. Dechrau pethau oedd hyn ac yr oedd ymgyrchu mawr i'w gyflawni er mwyn cael llais i'r werin bobl, ac yn hyn o beth bu Gwilym Hiraethog yn ddigon huawdl ar y mater.

Cyflawnodd ei brentisiaeth fel Gweinidog yr Efengyl ym Mostyn. Glowyr maes glo sir Fflint oedd asgwrn cefn y gynulleidfa a'i galwodd atynt. Cafodd ef a'i briod Ann, merch teulu Edwardsiaid, Waunddileu, Nantglyn, brofedigaeth bersonol fawr pan fu farw eu merch, Angharad, a hithau ond chwe blwydd oed:

Fy ngholomen fwyn ddiniwed,
Hoffder llygaid mam a thad,
Ergyd trwm oedd in ei cholli,
Hir fu'r hiraeth ei barhad.

Symudodd ym 1837, ar ôl chwe blynedd ym Mostyn, i eglwys Lôn Swan yn nhref Dinbych, a daeth i amlygrwydd cynyddol fel un o utgyrn y pulpud. Arhosodd chwe blynedd yn Nyffryn Clwyd.

Symudodd wedyn, ym 1847, i ofalu am Gapel y Tabernacl, Crosshall Street, Lerpwl, yn olynydd i'w gyfaill William Williams o'r Wern, ger Rhosllanerchrugog. Yr oedd cyfran fawr o aelodau y Tabernacl yn ddigon cyffredin eu byd, yn debycach i gynulleidfa Mostyn nag i gynulleidfa Lôn Swan. Sonia ef ei hun am y sefyllfa adfydus a wybu trigolion Lerpwl oherwydd y cyflwr economaidd yn y flwyddyn 1850. Collodd miloedd o bobl eu gwaith o'r dociau ac o fyd masnach. Aeth cyfran fawr o aelodau'r Tabernacl yn ôl i Gymru ac ymfudodd teuluoedd eraill i'r Unol Daleithiau. Arhosodd y mwyafrif, mae'n wir, oherwydd eu bod yn rhy dlawd i symud yn ôl i'r hen wlad neu dalu tair punt am le ar long i Efrog Newydd.

Derbyniai ef ei hun gyflog o £150, a soniodd William Rees am hyn wrth ei gydweinidogion o'r Eglwysi Rhyddion mewn cinio a roddwyd fel teyrnged iddo ym 1875. Byd main oedd ei fyd o. Roedd ganddo saith o blant i'w bwydo a'u gwisgo a'u haddysgu. Ofnai yn ei galon rhag mynd i ddyled. A'r waredigaeth a ddaeth iddo oedd newyddiadura a llenydda. Dyma a'i cadwai rhag boddi yn ariannol. Ond yn bwysicach na'r gynhaliaeth ariannol oedd y cyfle godidog a gafodd i ledaenu ei syniadau radicalaidd. Bodlonodd ar ysgwyddo pen tryma'r baich, i gasglu deunydd i'r papur, sgrifennu newyddion tramor a gofalu am adroddiadau o weithgareddau a dadleuon y Senedd; y cwbl heb dâl ar wahân i gyflenwad o bapur a digon o inc!

O ran agwedd wleidyddol, cynheiliaid y Blaid Doriaidd oedd llawer iawn o Gymry Lerpwl. Roedd ganddo genhadaeth i'w perswadio i newid plaid. Arweiniodd y rhai mwyaf hyblyg ohonynt drwy 'labyrinth gwleidyddol Ewrop', chwedl un llenor. Gwnaeth i'r darllenydd capelgar sylweddoli fod y byd mawr, er gwaethaf rhyfel, chwyldroadau a thrasedïau, yn werth byw ynddo, yn wir fod y rhain yn rhan o ddemocratiaeth a ddeuai â byd newydd maes o law. Ac felly yn hanes syniadaeth Gymraeg y mae Gwilym Hiraethog yn ffigwr allweddol. Yr oedd yn un o'r prif gymeriadau yn y gweddnewid a gymerodd le yn hanes Cymru — y gweddnewid o fod yn gaeth i ddadleuon diwinyddol digon di-fudd, i ymgyrchoedd gwleidyddol i godi safon byw y werin bobl. Yn ei ddyddiau cynnar gwelodd arweinwyr yr enwadau yn rhoi egni diben-draw i drafod y ddadl am yr 'Iawn' ond erbyn 1870 yr oedd ef ac eraill wedi symud y pendil. Daeth materion Rhyddfrydiaeth Gladstone (heddwch rhwng y gwledydd, diwygiadau cymdeithasol, ac ati) i lenwi'r darlun. Chwaraeodd Gwilym Hiraethog ran allweddol yn y newid hwn pan oedd yn y Tabernacl a hefyd yn Salem, Brownlow Hill a Grove Street.

Defnyddiodd ddull arall i ddeffro'r cyhoedd ac i'w haddysgu. Roedd yn un o'r cyntaf i fanteisio ar y cyfle i gyflwyno neges ystyrlawn trwy gyfrwng y ddarlith gyhoeddus. Gelwir ef yn dad y ddarlith Gymraeg. Nid Gwilym Hiraethog a gychwynnodd yr arfer ond ef yn anad neb a fu'n gyfrifol am fraenaru'r tir a gwneud y ddarlith yn atyniad poblogaidd. Yn Lerpwl y traddodwyd y ddarlith gyntaf, ar nos Fercher, 25 Tachwedd 1846, yn y Concert Hall, Lord Nelson Street.

*(I'w barhau yn y rhifyn nesaf.)*

EMMANUEL:

NEU,

GANOLBWNGC GWEITHREDOEDD

LLYWODRAETH DUW.

"FEL Y BYDDAI EFE YN BLAENORI YN MHOB PETH."—PAUL.

GAN GWILYM HIRAETHOG.

CYF. I.

DINBYCH:
ARGRAPHWYD GAN THOMAS GEE.
MDCCCLXI.

*Wynebddalen y gyfrol gyntaf o* Emmanuel . . . *o waith William Rees a gyhoeddwyd yn 1861. Cyhoeddwyd yr ail gyfrol yn 1867. Cynnwys y ddwy gyfrol yw arwrgerdd faith sydd yn ymestyn dros ugain mil o linellau.*

*(parhad o dudalen 8)*

cyn y dyddiad cyhoeddi fe ailddechreuir ar ymgyrch gwerthu yn ein llyfrgelloedd mwyaf.

Drwy gydweithio agos gyda'r cwmni argraffu, Cedric Chivers, prisio realistig a strategaeth werthu fwriadol, mae pob cyfrol yn creu incwm ychwanegol o tua £1000 i £2000 ar gyfer y gwasanaeth. Defnyddir yr incwm i wella cyhoeddusrwydd y gwasanaeth ac i argraffu pamffledi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ogystal â deunydd astudiaethau lleol. Gwelir y fenter felly fel un sydd o fudd yn fewnol i'r Gwasanaeth, ond yn bwysicach, un sydd o fudd i'r cymuned.

**Y gyfrol nesaf**

Fel y soniwyd ar ddechrau'r erthygl hon cyhoeddwyd y bymthegfed gyfrol yng nghyfres Ad-argraffiadau'r Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth ddechrau Rhagfyr 1994. Yn wahanol i'r holl gyfrolau eraill mae'r gyfrol hon yn ymwneud â Chymru gyfan ond bod gan yr awdur gysylltiadau agos iawn â Chlwyd.

Y gyfrol yw *The Cambrian Popular Antiquities of Wales*, gan Peter Roberts. Offeiriad, ysgolhaig Beiblaidd a hynafiaethydd oedd Peter Roberts. Fe'i ganwyd yn Rhiwabon yn 1760 a derbyniodd ei addysg yn ysgolion gramadeg Wrecsam a Llanelwy, a Choleg y Drindod, Dulyn. Bu'n ficer yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog ac yn Swydd Amwythig ac yn rheithor yn Helygain, Sir Fflint. Cyhoeddwyd y gyfrol wreiddiol yn 1815 ac mae'n grynodeb hynod o eitemau ar hanes a chwedlau Cymru, diwylliant gwerin a thraddodiadau poblogaidd. Mae'n rhoi cipolwg ar arferion, difyrion a thraddodiadau sy'n anghofiedig erbyn hyn. Mae'r gyfrol hon yn cynnwys y deg llun lliw a ymddangosodd yn y gyfrol wreiddiol. Y pris yw £17.95 a gellir ei phrynu trwy gysylltu â Marian Roberts, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, Clwyd LL11 1AU (Ffôn: 01978 261932).

**AR WERTH**

***Cambrian Minstrelsie (Alawon Gwalia): a national collection of Welsh Songs.*** The music in old and new notations; edited and harmonised by Joseph Parry, the words in English and Welsh, edited by David Rowlands (Dewi Môn). Edinburgh: T. C. and E. C. Jack; Birmingham: A. Erskine and Co., 1893. Cyfrolau 1, 3, 4, 5 a 6.

*Mewn cyflwr da. Lluniau lliw ardderchog.*

T. E. Griffiths, 15 Erw Wen, Caeathro, Caernarfon.